Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# O'R CYNRADD I'R UWCHRADD – PROFIAD ATHRO



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

## LISA WOODROW
## YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD

**Fel Dirprwy Bennaeth a mentor, mae Lisa Woodrow yn ymdrechu i ennyn hyder unigolion sy'n trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd trwy'r Cynllun Pontio.**

**Yn ôl Lisa, y peth pwysicaf yw bod athrawon yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi bob amser.**

"Rhan bwysicaf fy rôl fel mentor yw gwneud yn siŵr eu bod yn hyderus yn y rôl y maent yn ei gwneud. Bydd ganddynt yr arbenigedd o'r cynradd o fod yn athro, ond wrth gwrs o ddod i'r uwchradd efallai na fydd ganddynt yr hyder gyda'r plant hŷn.

"Gwneud amser i wneud yn siŵr bod ganddyn nhw gefnogaeth, dyna'r prif beth. Cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd fel bod ganddynt fforwm i leisio unrhyw bryderon. Yna, os oes ganddynt bryderon, gwneud yn siŵr ein bod yn mynd i'r afael â'r rheini naill ai drwy roi arsylwadau, neu eu rhoi ar hyfforddiant perthnasol – yn enwedig ar gyfer Cyfnodau Allweddol 4 a 5 lle gallent deimlo'n llai hyderus."

**Fel mentor, mae Lisa'n meddwl bod y manteision y mae athrawon yn eu cynnig o'r cynradd i'r uwchradd yn arbennig o berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru.**

"Pan mae athrawon yn pontio o'r cynradd i'r uwchradd, maen nhw'n dod â llawer o sgiliau gyda nhw. Maen nhw hefyd yn dod â'u methodoleg a'u haddysgeg gyda nhw efallai nad ydyn ni bob amser yn eu hystyried yn berthnasol i blant hŷn. Fodd bynnag, yn enwedig i ni nawr gyda'r Cwricwlwm i Gymru, maent yn dod â'u dealltwriaeth o'r cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 drwodd i Gyfnod Allweddol 4, felly mae gennym gontinwwm dysgu drwyddi draw.

"Rydym hefyd wedi elwa'n fawr o gael aelod profiadol o staff sydd â'r sgiliau i allu cyflwyno un o'r pynciau allweddol i ni."

**A beth fyddai cyngor Lisa i unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais ar gyfer y Cynllun Pontio?**

"Y cyngor y byddwn i'n ei roi i unrhyw un sydd eisiau gwneud cais eleni yw bod yn hyderus ynoch chi'ch hun a sylweddoli bod digon o gymorth ar gael. Ry' ni i gyd eisiau i hyn weithio, ac mae angen i hyn weithio. Felly, byddwn yn gefnogol ac yn sicrhau eich bod yn teimlo'n gyfforddus yn eich rôl newydd."